PRIFYSGOL DE CYMRU (y Brifysgol)

Datganiad Polisi Recriwtio Cyn-droseddwyr

Cyflwyniad

Mae'r Brifysgol yn recriwtio unigolion sydd â'r cymysgedd cywir o dalent, sgiliau a photensial a yn croesawu ceisiadau gan ystod eang o ymgeiswyr, gan gynnwys y rhai â chofnodion troseddol. Rydym yn dewis pob ymgeisydd ar gyfer cyfweliad yn seiliedig ar eu sgiliau, eu cymwysterau, a phrofiad.

Mae'r Brifysgol yn benderfynol o symud ymlaen a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth fel nodweddion allweddol o fewn ei holl weithgareddau, gan ei bod yn credu bod hyn yn foesegol gywir ac yn gymdeithasol gyfrifol. Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ffactorau hanfodol sy'n sail i gryfder academaidd ac ariannol y Brifysgol.

Ni fydd meddu ar gofnod troseddol o reidrwydd yn eich atal rhag gweithio yn y Brifysgol. Ystyrir natur y swydd ac amgylchiadau a chefndir unrhyw droseddau.

Y Broses Recriwtio

Cyflwynir cais am wiriad cofnodion troseddol i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) dim ond wedi i asesiad risg trylwyr nodi bod un yn gymesur a pherthnasol i'r swydd.

Ar gyfer y swyddi hynny lle nodir bod gwiriad cofnodion troseddol yn angenrheidiol, bydd pob ffurflen gais, hysbysebion swyddi a briffiau recriwtio yn cynnwys datganiad bod cais am dystysgrif DBS yn cael ei gyflwyno os bydd yr unigolyn yn cael cynnig y swydd. Bydd unrhyw gynnig cyflogaeth yn amodol ar ddatgeliad boddhaol gan y DBS.

Ar y cynnig cyflogaeth amodol, bydd y Brifysgol yn sicrhau bod trafodaeth agored a phwyllog yn cael ei chynnal ar destun unrhyw droseddau neu achosion troseddol sy'n weddill a allai fod yn berthnasol i'r swydd. Gall methu â datgelu gwybodaeth sy'n uniongyrchol berthnasol i'r swydd arwain at dynnu'r cynnig cyflogaeth yn ôl (neu ddiswyddo, os yw eich cyflogaeth wedi dechrau).

Lle rydych wedi datgelu i ni eich bod wedi cyflawni trosedd, neu lle y bydd Gwiriad DBS neu ddatgeliad sylfaenol wedi datgelu hyn, byddwn yn cynnal asesiad gwrthrychol o'r effaith y dylai hyn ei chael ar eich cyflogaeth. Byddwn yn trafod canlyniad yr ystyriaethau hyn gyda chi.

Cydymffurfio â Chod Ymarfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Mae gan wefan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd adnoddau manwl yn ymwneud â Gwiriadau DBS, gan gynnwys Cod Ymarfer DBS ar gyfer personau cofrestredig a derbynwyr datgelu gwybodaeth eraill.

Fel sefydliad sy'n defnyddio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i asesu addasrwydd ymgeiswyr ar gyfer swyddi sydd wedi'u cynnwys yng Ngorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau), mae'r Brifysgol yn cydymffurfio'n llawn â'r Cod Ymarfer DBS ac yn ymrwymo i drin pob ymgeisydd am swyddi yn deg. Mae'n ymrwymo i beidio â gwahaniaethu'n annheg yn erbyn unrhyw destun Datgeliad ar sail collfarn neu wybodaeth arall a ddatgelwyd.

Yr unig euogfarnau a rhybuddion y gall y Brifysgol ofyn i unigolyn eu darparu yw'r rhai y mae gan y Brifysgol hawl gyfreithiol i wybod amdanynt, lle gellir gofyn yn gyfreithiol am dystysgrif DBS ar lefel safonol neu manylach (lle mae'r swydd yn un sydd wedi'i chynnwys yng Ngorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975 fel y'i diwygiwyd, a lle bo'n briodol, Rheoliadau Deddf yr Heddlu fel y'i diwygiwyd).

Yr unig euogfarnau a rhybuddion y gall y Brifysgol ofyn i unigolyn amdanynt yw'r rhai nad ydynt yn warchodedig.

Adolygiad	Dyddiad Cyhoeddi	Disgrifiad o'r Adolygiad	Awdur	Cymeradwyaeth AD	Cymeradwyaeth Ffurfiol
3.0	13.10.09	Diwygio'r teitl	JFB	CT	
4.0	08.07.20	Adolygiad llawn o'r Datganiad Polisi	WM		

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/*This document is available in English*.